# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd hybrid yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol dros Zoom

**Nos Iau 27 Chwefror 2025 am 7.00**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Mary Jones

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Ann Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Y Cynghorydd Walter Williams

**Cynghorwyr Sir**
Y Cynghorydd Rheinallt Puw

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. E Mary Jones.

**Ymddiheuriadau** – Y Cyngr. Dyfrig Jones, Michael Williams, Huw Jones, Einir Williams, Bleddyn Williams a Catrin Wager.

**2. Datgan Diddordeb**

Dim.

**3. Materion Brys**

**3.1 Cynnig i adolygu ffiniau Cynghorau Bethesda a Llanllechid –** Trafodwyd y mater ac yn dilyn pleidlais roedd y Cyngor yn rhanedig.

**3.2 Problemau parcio Stryd Fawr –** i'w gynnwys ar agenda mis Mawrth.

**4. Cofnodion**

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2024.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**

**5.1 Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig -** Cytunwyd bydd y tirfeddiannwr yn creu les newydd - ar y gweill.

**5.2 Lon Newydd - Dŵr yn llifo -** Adroddwyd fod y dŵr dal i lifo. Y Clerc a'r Cynghorwyr i gysylltu â Chyngor Gwynedd eto, ac i dynnu sylw at broblemau diogelwch a fydd yn digwydd pan fydd y tywydd rhewllyd yn dychwelyd. Y Clerc i gynnwys pennaeth yr adran, Steffan Jones.

**5.3 Cynllun Bioamrywiaeth -** Y Clerc a'r Cyng. Catrin Wager i edrych dros y ddogfen, ac yna ei ail gyflwyno i'r Cyngor.

**5.4 Cysgodfan Bws ger Maes Bleddyn -** Y Clerc i edrych ar osod cysgodfan ger mynediad Maes Bleddyn - ar y gweill.

**5.5 Ffordd rhwng Sgwâr Rachub a Hen Barc** - Derbyniwyd ymateb gan bennaeth yr adran priffyrdd, Steffan Jones. Cadarnhawyd ei fod wedi gofyn i'r Peiriannydd Ardal drefnu archwiliad brys a chario allan gwaith adfer os oes angen yn unol â chynllun cynnal asedau. Nodwyd hefyd fod Peiriannydd Ardal yn cwblhau/cadarnhau'r rhaglen waith ail wynebu at y flwyddyn arian sydd yn dod ac wedi gofyn iddo gadarnhau be yw'r amserlen i waith ehangach i'r ffordd yma.
**5.6 Torri Coed Ogwen Bank** - Nodwyd fod y Clerc wedi derbyn cadarnhad fod Gwasanaethau Cynllunio a Bioamrywiaeth yr Adran wedi cynnal cyfarfod i ystyried erlyn, ac maent bellach yn y broses o baratoi achos i'w gyflwyno i Wasanaeth Cyfreithiol y Cyngor. Bydd yr adran yn trefnu i ddiweddaru'r Cyngor fel mae materion yn datblygu.

**6. Rhoddion**
Penderfynwyd gohirio'r eitem hwn tan gyfarfod mis nesaf.

**7. Polisi Iaith**
Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd ail gyflwyno'r eitem hwn i'r cyfarfod nesaf.

**8. Maes Parcio Gerlan**
Adroddwyd fod y gofrestr tir wedi'i diweddaru o'r diwedd, y Clerc yn disgwyl am y dogfennau perthnasol gan y cyfreithiwr.

**9. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Chwefror 2025'
**9.1 Balchder Bro, Cais am Nawdd** – Penderfynwyd ail gyflwyno'r eitem hwn yn cyfarfod mis Mawrth.
**9.2 Carnifal Bethesda, Cau'r Ffordd –** Penderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi.
**9.3 Parc Cenedlaethol Eryri, Cynghorau Cymuned a Thref a'r System Gynllunio –** y cynnwys wedi ei nodi a'i drafod.
**9.4 Tîm Tacluso – Ward Gerlan –** Cynghorwyr aelodau ward Gerlan i ddanfon unrhyw waith sydd angen ei gwblhau.

**10. Penderfyniadau a Cheisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C23/0207/13/CR** | |
| Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda | Addasiadau mewnol<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C24/0138/13/LL** | |
| 1 Yr Ardd Fawr, Ffordd Gerlan, Gerlan | Codi annedd deuluol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0809/13/DT** | |
| 36 Glanogwen, Bethesda | Dymchwel estyniad unllawr ochr presennol, a chodi estyniad unllawr ochr newydd.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0827/13/LL** | |
| Stryd Goronwy, Bethesda | Creu ffordd fynediad i ganiatáu parcio oddi ar y ffordd i 11 o geir.<br>**Penderfyniad:** Gwrthodwyd. |

**C24/0903/13/DT**

| | |
|---|---|
| Bwthyn Wiwer, 93 Ffordd Carneddi, Carneddi | Dymchwel estyniad unllawr presennol i gefn yr eiddo. Codi estyniad deulawr i gefn yr eiddo a chodi lefel yr uchder to presennol. **Penderfyniad:** ar y gweill. |

**<u>Ceisiadau</u>**

Dim.

**11. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £32.17 |
| John Wyn Jones | Cyflog Chwefror 2025 | £436.53 |
| CThEM | TWE Chwefror 2025 | £109.20 |
| Partneriaeth Ogwen | Nwyddau i Gorffwysfan | £90.99 |
| Cyngor Gwynedd | Gosod a thynnu goleuadau Nadolig | £7416.02 |

**12. Crynodeb Llais Ogwen**

Penderfynwyd cynnwys yr isod:

- Dŵr yn llifo – Lon Newydd
- Maes Parcio Gerlan
- Rhoddion
- Newid Ffiniau - Rachub